# Canllaw i ddenu rhoddwyr rheolaidd

## Overview


- Beth yw rhoddwyr rheolaidd?
- Pam rhoddwyr rheolaidd?
- Pwy yw rhoddwyr rheolaidd?
- Maint debydau uniongyrchol
- Gwobrau debydau uniongyrchol
- Canlyniadau diriaethol
- Sut i ofyn
- Beth i'w ofyn
- Rhowch wybod iddyn nhw
- Adnoddau


## Beth yw rhoddwyr rheolaidd?



Unigolion sy'n rhoi cefnogaeth ariannol i'ch achos yn rheolaidd, trwy ddebyd uniongyrchol awtomatig bob mis fel arfer.

## Pam rhoddwyr rheolaidd?

Maen nhw'n rhoi incwm misol dibynadwy a sefydlog sy'n caniatáu i elusennau gynllunio'n well, a gallant ddatblygu'n symiau ystyrlon o arian yn fuan.

## Pwy yw rhoddwyr rheolaidd?

Cefnogwyr hirdymor yw'r rhain sydd â pherthynas gref â'r mudiad ac sy'n aml yn llysgenhadon ar gyfer y gwaith.

Mae'r rhai sy'n trefnu rhoddion debyd uniongyrchol yn debygol iawn o fod wedi cefnogi'r achos o'r blaen. Gallwch chi arwain rhoddwyr untro, codwyr arian, gwirfoddolwyr, buddiolwyr a staff i gymryd y cam nesaf a chefnogi gyda rhodd reolaidd.

**Awgrymiadau**

Os gallwch chi, ceisiwch ddarganfod resymau pobl dros roi – oes ganddyn nhw gysylltiad personol, ai oherwydd eich bod chi'n lleol iddyn nhw, er enghraifft. Gorau po fwyaf rydych chi'n ei wybod yngl n â pham maen nhw'n cyfrannu. Gallwch chi wedyn deilwra gohebiaeth benodol i apelio at eu diddordebau yn y dyfodol.

## Maint debydau uniongyrchol

Y rhodd fisol leiaf a awgrymir yw £2 ac mae'n bwysig hawlio Rhodd Cymorth ar yr holl roddion cymwys. Mae gan lawer o elusennau gynllun aelodaeth sy'n cynnwys rhoi gwahanol symiau. Mae rhoddion o wahanol feintiau yn cyfateb i wahanol fuddion a lefelau cyfathrebu. Fodd bynnag, po fwyaf cymhleth yw'r cynllun aelodaeth, y mwyaf o waith gweinyddol fydd ei angen arno.

## Gwobrau debydau uniongyrchol

Mae buddion a gynigir weithiau yn gyfnewid am gymorth misol yn cynnwys digwyddiad blynyddol, profiadau y tu ôl i'r llenni a chylchlythyrau. Gall buddion arwain at oblygiadau o ran Rhodd Cymorth (Gweler y daflen wybodaeth Cyflwyniad i Rodd Cymorth). Dylai elusennau fuddsoddi amser mewn meithrin perthynas â darpar roddwyr a rhoddwyr lefel uchel i gynyddu'r tebygolrwydd y byddan nhw'n gwneud taliadau rheolaidd.

## Canlyniadau diriaethol

Gallwch chi gynyddu ymddiriedaeth trwy nodi'n glir yr hyn fydd yn gallu digwydd o ganlyniad i roddion misol. Gallan nhw fod yn helpu nifer penodol o bobl neu'n mynd tuag at wasanaeth penodol. Sicrhewch fod y rhodd yn gymesur â'r newid fydd yn digwydd.

## Sut i ofyn



Lluniwch negeseuon perthnasol a phersonol. Cysylltwch ar lefel emosiynol (ond peidiwch â gwneud i bobl deimlo'n euog), gan ddangos effaith gydag astudiaethau achos a thystiolaeth. Anogwch daliadau rheolaidd eraill i gael eu talu fel debyd uniongyrchol, megis aelodaeth blynyddol i gyfeillion neu danysgrifiadau wythnosol. Dylech annog cyfraniadau gan y rhai sy'n cael help am ddim. Gallwch chi hefyd ddweud sut y bydd rhodd cymorth yn ychwanegu gwerth at unrhyw rodd a wneir.

## Beth i'w ofyn

Tynnwch sylw at ba mor hawdd yw rhoi, e.e. dim ond un coffi yr wythnos yw £10 y mis. Pwysleisiwch mai cymorth misol yw'r hyn sy'n osgoi cau'r drws ar unrhyw un ac sy'n helpu i baratoi ar gyfer y cyfle nesaf. Arweiniwch gefnogwyr presennol at y lefel nesaf o gyfranogiad a gofyn iddyn nhw hyrwyddo'r 'gofyn'. Dylech deilwra eich negeseuon diolch, rhannu uchelgeisiau a thynnu sylw at yr effaith hirdymor, gan fod y rhoddwyr hyn yn buddsoddi yn nyfodol yr elusen.

## Rhowch wybod iddyn nhw

Yn olaf, gwnewch yn si r eich bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch rhoddwyr. Cofiwch eu hatgoffa pa mor bwysig yw eu cefnogaeth a rhannwch y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a datblygiadau a sut mae eich gwaith yn effeithio ar fywydau pobl.

Mae pobl yn rhoi oherwydd eu bod nhw'n hoffi'r hyn rydych chi'n ei wneud; felly mae'n bwysig parhau i roi'r wybodaeth hon iddyn nhw i gadw eu cefnogaeth yn y dyfodol.

## Adnoddau

### Local giving

www.localgiving.org

### Canllaw i godwyr arian

https://knowledgehub.cymru/cy/resources/canllaw-i-godwyr-arian/

### Canllaw i apeliadau cyllido torfol

https://knowledgehub.cymru/cy/resources/canllaw-i-apeliadau-cyllido-torfol/

Codi arian deallusrwydd artiffisial (Templed)

https://knowledgehub.cymru/cy/resources/codi-arian-deallusrwydd-artiffisial-templed/